# Hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol i gwrdd â'u hanghenion gofal personol o ran hylendid, maeth a symudedd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu cynlluniau i gwrdd â'u hanghenion gofal personol a'u cefnogi i roi'r cynlluniau hyn ar waith. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at werthuso pa mor effeithiol mae'r cynlluniau a'r ddarpariaeth wedi bod o ran cwrdd â'u hanghenion gofal personol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a wybodaeth am anghenion gofal personol plant neu bobl ifanc
2. chwilio am wybodaeth a nodi gwahanol ffyrdd o gwrdd ag anghenion gofal personol plant neu bobl ifanc
3. sicrhau bod cynlluniau’n parchu preifatrwydd, urddas, annibyniaeth a chynhwysiant plant neu bobl ifanc
4. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion gofal
5. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i nodi eu barn a’u dewisiadau o ran eu hanghenion gofal personol
6. cefnogi plant neu bobl ifanc i nodi sut mae eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gallu cwrdd â’u hanghenion
7. helpu plant neu bobl ifanc i gwrdd â’u hanghenion gofal personol wrth reoli risgiau
8. annog a chefnogi annibyniaeth plant neu bobl ifanc mewn gweithgareddau sy’n cefnogi eu hanghenion gofal personol
9. cefnogi plant neu bobl ifanc â rheoleiddio emosiynol ac i ddeall rhwystredigaethau
10. cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill i roi adborth ynghylch effeithiolrwydd y ddarpariaeth
11. rhoi adborth ynghylch effeithiolrwydd y ddarpariaeth
12. nodi a mynd i’r afael â’r newidiadau sydd eu hangen i gefnogi anghenion gofal personol plant neu bobl ifanc
13. gweithio mewn partneriaeth i ymgymryd â newidiadau i’r cynllun personol, y rhesymau pam y cafodd y rhain eu gwneud, a sut y sicrheir adnoddau ar eu cyfer
14. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer anghenion gofal personol plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
15. Meddyliwch sut y gwanethoch chi gyflawni eich rolau a’ch cyfrifoldebau wrth hybu anghenion gofal plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y newidiadau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu ac effaith newid ar eu hanghenion gofal personol
2. yr anghenion gofal personol amrywiol y gall fod gan blant a phobl ifanc o ran hylendid, maeth a symudedd
3. sut mae datblygu a gweithredu cynlluniau personol sy’n mynd i’r afael ag anghenion penodol plant a phobl ifanc
4. sut mae nodi a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gofal personol
5. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu gofal personol, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
6. technegau ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc am eu hanghenion gofal personol a’u dewisiadau
7. sut mae sicrhau bod gweithgareddau gofal personol yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n parchu preifatrwydd ac urddas plant a phobl ifanc
8. sut mae darparu cymorth emosiynol i blant a phobl ifanc yn ystod gweithgareddau gofal personol
9. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
10. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau gofal personol
11. defnydd addas o derminoleg arbenigol i gefnogi dealltwriaeth o anghenion gofal personol plant a phobl ifanc
12. y cymorth arbenigol sydd ar gael i blant a phobl ifanc, teuluoedd ac eraill mewn perthynas â gofal personol
13. pwysigrwydd teuluoedd o ran cefnogi anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
14. sut mae cynllunio dulliau personol sy'n cwrdd â gofynion gofal personol plant a phobl ifanc
15. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar anghenion gofal personol a dewisiadau
16. dylanwad diwylliant a chefndir ar anghenion gofal personol a dewisiadau
17. sut mae addasu ymarfer i gwrdd ag anghenion gofal personol plant a phobl ifanc
18. sut mae gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion gofal personol

19. yr amrywiaeth o ddyfeisiau ac adnoddau digidol, cymhorthion a chyfarpar a’u defnydd diogel mewn gofal personol
20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
21. theorïau sy’n berthnasol i hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
24. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
25. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD363

Hybu anghenion gofal personol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD363 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Anghenion gofal personol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |